Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2025/26



Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol 5

Gwybodaeth am yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol a'r Ddyletswydd Ansawdd 6

Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 6

Pwy ydym ni, a'n rôl yn GIG Cymru 8

Beth mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn ei olygu i AaGIC? 9

Sut rydym yn gwreiddio'r Ddyletswydd Ansawdd yn AaGIC 10

Cynllun Ansawdd 10

Rheoli Ansawdd ym maes Addysg a Hyfforddiant 11

System Rheoli Ansawdd (QMS) ar gyfer Amgylcheddau Addysg a Hyfforddiant 12

Llywodraethu Swyddogaethau Addysg a Hyfforddiant yn AaGIC 14

Monitro Ansawdd Addysg a Hyfforddiant 14

Addysg Feddygol Ôl-raddedig - Rheoli Ansawdd 15

Sut ydym ni'n gwrando ar lais y dysgwr? 16

Edrych yn ôl ar 2025/26 18

Enghraifft: Gwaith sy'n canolbwyntio ar ansawdd i Gefnogi Ansawdd Addysg a Hyfforddiant 19

Parhau i wreiddio'r ddyletswydd ansawdd yn ein diwylliant sefydliadol 21

Datblygu ein System Rheoli Ansawdd (QMS) 21

Cryfhau sut rydym yn gwrando ar leisiau dysgwyr ac yn ymateb iddynt 22

Gwerthuso Ansawdd ein Gwaith 23

Adroddiadau archwilio 23

Arolwg Staff GIG Cymru 25

Cwynion, Pryderon a Risgiau 25

Codi Llais Heb Ofn 26

Cofrestr Risg Gorfforaethol 27

Cydraddoldeb, Cynhwysiant a'r Gymraeg 28

Y Ddyletswydd Ansawdd yn ein Cyfarwyddiaethau a'n Rhaglenni Gwaith 30

Meithrin Galluogrwydd i Wella Ansawdd 31

Defnyddio Gwybodaeth i Gynllunio, Targedu a Gwella 31

Cryfhau Cyflenwad, Mynediad a Chadernid y Gweithlu 31

Cefnogi Gofal Mwy Diogel sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn 31

Edrych ymlaen at 2026/27 33

Casgliad 35

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Ansawdd AaGIC, sy'n nodi sut rydym yn parhau i roi ansawdd wrth galon popeth a wnawn.

Fel sefydliad addysg, hyfforddiant a gweithlu cenedlaethol GIG Cymru, ein rôl yw datblygu, cefnogi a siapio gweithlu medrus, tosturiol ac sy'n barod i ddiwallu anghenion newidiol pobl Cymru. Mae ansawdd ein haddysg, ein hyfforddiant a datblygiad ein gweithlu yn cael dylanwad uniongyrchol ar ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir ar draws y GIG, gan wneud gwelliant parhaus yn gyfrifoldeb ac yn flaenoriaeth.

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn, effaith ein gwaith, a'r camau rydym yn eu cymryd i wella'n barhaus. Mae hefyd yn dangos cryfder ein partneriaethau, gan gydweithio â Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau, Sefydliadau Addysg Uwch, Rheoleiddwyr Proffesiynol, Llywodraeth Cymru a llawer o randdeiliaid eraill, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu cynaliadwy, medrus ac addasadwy. Mae'r partneriaethau hyn yn hanfodol i gyflawni ein huchelgais gyffredin o wella canlyniadau iechyd ledled Cymru.

Rydym yn parhau i wreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy gydol ein gwaith, hyrwyddo'r Gymraeg, a chyfrannu at agenda datgarboneiddio GIG Cymru, gan gydnabod bod ansawdd yn ymestyn y tu hwnt i ddarpariaeth addysgol i bob agwedd ar sut rydym yn gweithredu fel sefydliad.

Er ein bod yn falch o'r cynnydd a amlygwyd yn yr adroddiad hwn, rydym yn cydnabod nad yw ansawdd yn gyrchfan a bod yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau iechyd a gofal yn parhau i esblygu, ac felly hefyd y mae'n rhaid i'n dull gweithredu. Rydym wedi ymrwymo o hyd i wrando ar ddysgwyr a phartneriaid, gan ddefnyddio tystiolaeth i sbarduno gwelliant, a sicrhau bod ein rhaglenni addysg a hyfforddiant yn parhau i ddiwallu anghenion newidiol y gweithlu a'r boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu.

Hoffem ddiolch i'n staff, ein dysgwyr, ein haddysgwyr, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid am eu harbenigedd a'u cydweithrediad parhaus. Mae eu hymrwymiad yn galluogi AaGIC i gyflawni ei ddiben a gwneud cyfraniad ystyrlon at ddyfodol gofal iechyd yng Nghymru.



Chris Jones
Cadeirydd



Alex Howells
Prif Swyddog Gweithredol

Gwybodaeth am yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol a'r Ddyletswydd Ansawdd

Croeso i Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Ansawdd AaGIC ar gyfer 2025 i 2026. Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y cyhoedd a'n Bwrdd, ac mae'n gyfle i rannu sut rydym yn bodloni gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Daeth y Ddyletswydd Ansawdd i rym ym mis Ebrill 2023 fel rhan o'r Ddeddf hon ac mae'n nodi'r gofynion cyfreithiol i holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru wella ansawdd y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu i bobl yn barhaus.

Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal

Mae'r 12 Safon Ansawdd Iechyd a Gofal yn darparu fframwaith ymarferol i'n cefnogi i gyflawni'r Ddyletswydd Ansawdd. Maent yn disgrifio sut beth yw gofal o ansawdd da yn ymarferol ac yn helpu i strwythuro sut rydym yn gwreiddio ansawdd yn y broses o wneud penderfyniadau, cynllunio, darparu a monitro ein gwaith.



Mae chwe maes ansawdd a chwe safon galluogi sy'n ein helpu i wreiddio ansawdd yn ein sefydliad.

Meysydd Ansawdd

- Diogel
- Amserol
- Effeithiol
- Effeithlon
- Teg
- Canolbwyntio ar yr unigolyn

Safonau Galluogi

- Arweinyddiaeth
- Gweithlu
- Diwylliant
- Gwybodaeth
- Dysgu, gwella ac ymchwil
- Dull system gyfan

Mae'r safonau hyn yn creu'r amodau ar gyfer gofal o ansawdd uchel drwy gryfhau arweinyddiaeth, cynllunio'r gweithlu, diwylliant, gwybodaeth, dysgu a gwella ar draws y system.



Pwy ydym ni, a'n rôl yn GIG Cymru

AaGIC yw'r corff addysg statudol a'r sefydliad gweithlu strategol ar gyfer GIG Cymru. Ein pwrpas yw gweithio gyda phartneriaid i gynllunio, datblygu, addysgu a hyfforddi'r gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol. Fel Awdurdod Iechyd Arbennig, rydym yn mynd i'r afael â chyfleoedd a risgiau strategol ac arbenigol i'r gweithlu drwy ein swyddogaethau statudol. Drwy gynllunio'r gweithlu, addysg, hyfforddiant, datblygu arweinyddiaeth a thrawsnewid y gweithlu, rydym yn cefnogi GIG Cymru i ymateb i anghenion y gweithlu nawr ac yn y dyfodol.

Mae ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio yn ganolog i'n rôl fel sefydliad gweithlu. Mewn partneriaeth â staff, rydym wedi datblygu gwerthoedd sefydliadol sy'n cefnogi gweithio tosturiol, cynhwysol a chydweithredol.

Mae cydraddoldeb, ansawdd, amrywiaeth a chynaliadwyedd yn hanfodol i'n holl weithgareddau a swyddogaethau, ac wedi'u gwreiddio ynddynt.

Parch at bawb
Ym mhob rhyngweithiad

Gyda'n gilydd fel tîm
Gan weithio ar y cyd ar draws GIG Cymru ac gyda phartneriaid.

Syniadau sy'n gwella
Croesawu creadigrwydd, arloesedd a dysgu parhaus.

Cynllunio, Comisiynu a Darparu Addysg a Hyfforddiant

Rydym yn gweithio gyda'n darparwyr addysg, rheoleiddwyr a phartneriaid gwasanaeth i gynllunio, comisiynu, darparu a rheoli ansawdd addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig ar gyfer ystod eang o broffesiynau iechyd.

Mae AaGIC yn cynhyrchu'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant blynyddol, gan wneud argymhellion strategol i Lywodraeth Cymru ar sail gofynion y gweithlu a nodwyd gan sefydliadau'r GIG a phartneriaid eraill.

Arweinyddiaeth, Diwylliant a Chynllunio Olyniaeth

Rydym yn dylunio ac yn darparu rhaglenni arweinyddiaeth i wella'r gwaith o reoli talent, gan gefnogi'r gwaith o gynllunio olyniaeth, a chreu diwylliannau tosturiol a chydweithredol. Mae ein Porth Gwella yn cynnal ystod o adnoddau diwylliant ac arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys hyb goruchwylio i gefnogi staff ar bob lefel.

Strategaeth, Cynllunio a Gwybodaeth am y Gweithlu

Yn ogystal â darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer cynllunio'r gweithlu ar draws GIG Cymru, mae gennym rôl arweiniol yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithlu strategol a darparu mewnwelediad a gwybodaeth ddadansoddol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu siâp y gweithlu, nawr ac yn y dyfodol.



Datblygu a Thrawsnewid y Gweithlu

Mae ein gwaith trawsnewid yn canolbwyntio ar ddarparu datrysiadau i'r gweithlu i fynd i'r afael â heriau'r gwasanaeth a'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys datblygu sgiliau, dylunio rolau, datblygiad proffesiynol parhaus a datblygu llwybrau gyrfa i lywio penderfyniadau a chefnogi gwelliant parhaus.



Denu, Gyrfaoedd ac Ehangu Mynediad

Rydym yn arwain gwaith i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes iechyd, ehangu mynediad a chryfhau enw da Cymru fel lle i hyfforddi a gweithio. Ein nod yw sicrhau bod yr addysg a'r hyfforddiant rydym ni'n eu cynnig yn hygyrch i unrhyw un yn ein cymunedau sydd â sgiliau a phrofiad gwerthfawr, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu tangynrychioli yn ein gweithlu ar hyn o bryd.



Uned Cymorth Ailddilysu

Mae'r Uned Cymorth Ailddilysu yn rheoli'r gwaith o arfarnu ac ailddilysu'r gweithlu meddygol. Mae hyn yn cynnwys darparu arfarniadau ar gyfer pob meddyg teulu yng Nghymru a sicrhau ansawdd prosesau arfarnu ac ailddilysu meddygol yr holl gyrff dynodedig yng Nghymru, gan gynnwys y rhai yn y sector preifat. Mae dadansoddi anghenion dysgu o arfarniadau meddygol, ynghyd â blaenoriaethau cenedlaethol, yn llywio datblygiad proffesiynol parhaus i gefnogi staff GIG Cymru. AaGIC yw'r corff dynodedig mwyaf yng Nghymru sy'n gyfrifol am ddarparu a gwella prosesau arfarnu ac ailddilysu o ansawdd uchel ar gyfer pob meddyg dan hyfforddiant.

Ar draws ein holl swyddogaethau, rydym yn defnyddio tystiolaeth, gwybodaeth am y gweithlu, gwybodaeth am ansawdd a gwybodaeth rhanddeiliaid i lywio penderfyniadau a chefnogi gwelliant parhaus.

Beth mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn ei olygu i AaGIC?

Er nad yw AaGIC yn darparu gofal i gleifion yn uniongyrchol, rydym yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu a chefnogi'r gweithlu ar draws GIG Cymru sy'n gwneud hynny. O ganlyniad, mae ansawdd yn ganolog i'n gwaith, sy'n ffocysu ar alluogi gofal sy'n:

✓ Diogel

Gosod safonau addysg a hyfforddiant, hyrwyddo diogelwch cleifion, a gwreiddio diwylliant o ddysgu a gwella parhaus.

Amserol

Cynllunio a datblygu gweithlu cynaliadwy sydd â'r sgiliau a'r galluoedd priodol i ddiwallu anghenion y boblogaeth.

Effeithiol

Sicrhau bod addysg, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn alinio ag arferion gorau.

Effeithlon

Cefnogi modelau gweithlu, ail-ddylunio rolau, ac optimeiddio sgiliau i wneud y defnydd gorau o adnoddau.

= Teg

Hyrwyddo addysg gynhwysol, ehangu mynediad at yrfaoedd, a datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu.

Canolbwyntio ar yr unigolyn

Ymgorffori gwerthoedd, ymddygiadau a sgiliau cyfathrebu sy'n sicrhau bod pobl a'u hanghenion wrth galon gofal.

Sut rydym yn gwreiddio'r Ddyletswydd Ansawdd yn AaGIC

Mae dull AaGIC o ymdrin â'r Ddyletswydd Ansawdd yn canolbwyntio ar droi safonau ansawdd yn ffyrdd ymarferol o weithio ar draws sefydliadau. Yn ystod 2025/26, roedd hyn yn golygu cryfhau sut rydym yn cynllunio ar gyfer ansawdd, gwrando ar ddysgwyr a phartneriaid, nodi a rheoli pryderon, defnyddio tystiolaeth i lywio penderfyniadau, ac adrodd ar sicrwydd drwy ein llwybrau llywodraethu. Mae'r adrannau isod yn disgrifio'r systemau sy'n cefnogi'r dull hwn gydag enghreifftiau i ddangos sut maen nhw'n cael eu rhoi ar waith yn ymarferol.

Cynllun Ansawdd

Rydym yn gweld y Ddyletswydd Ansawdd fel cyfle i gryfhau dull sefydliadol cyson o ymdrin ag ansawdd.

Mae ein Cynllun Ansawdd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2024 ac a ymgorfforwyd drwy Gynllun Tymor Canolig Integredig 2025-2028, yn nodi ein hymrwymiad i welliant parhaus ac yn tynnu sylw at ein rôl ar draws y system o ran cefnogi'r gwaith o wella ansawdd.

Mae'r cynllun yn ffocysu ar bedwar uchelgais ansawdd allweddol:

- Parhau i wreiddio'r Ddyletswydd Ansawdd yn ein diwylliant sefydliadol.
- Datblygu ein System Rheoli Ansawdd (QMS).
- Cryfhau sut rydym yn gwrando ar leisiau dysgwyr, ac yn ymateb iddynt.
- Gwella prosesau adrodd ar ansawdd.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gryfhau'r ffordd yr ystyrir ansawdd drwy drefniadau'r Bwrdd, y Weithrediaeth a phartneriaethau. Roedd y newidiadau'n canolbwyntio ar wneud ansawdd yn fwy amlwg wrth wneud penderfyniadau, gwella llif gwybodaeth am sicrwydd a risg, ac alinio dull AaGIC â blaenoriaethau ansawdd ehangach GIG Cymru.

Goruchwyliaeth y Bwrdd

Fe wnaeth agendâu diwygiedig, trefniadau cydsynio agendâu, adroddiadau cryno Rhybuddio / Cynghori / Sicrhau, a diweddariadau cynnydd ddwywaith y flwyddyn gryfhau gallu'r Bwrdd i ffocysu ar ansawdd, sicrwydd ac effaith.

Goruchwyliaeth weithredol

Roedd templedi adrodd diwygiedig ac Adolygiadau Perfformiad y Gyfarwyddiaeth yn cefnogi ystyriaeth fwy cyson o'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal mewn trafodaethau cynllunio, cyflawni a pherfformiad.

Aliniad system

Roedd cymryd rhan yn rhwydweithiau ansawdd GIG Cymru, gwaith Partneriaeth Gofal Diogel ac ymgysylltu'n rheolaidd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cefnogi dysgu ar y cyd ac aliniad â blaenoriaethau ansawdd cenedlaethol.

Rheoli Ansawdd ym maes Addysg a Hyfforddiant


Mae gennym gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod dysgwyr yn cael amgylcheddau diogel, effeithiol a chefnogol lle gallant ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gofal o ansawdd uchel.

- Mae ein Deoniaethau Meddygol, Gofal Sylfaenol, Deintyddol a Fferylliaeth i ôl-raddedigion yn cynllunio, comisiynu a rheoli ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru sy'n alinio â safonau rheoleiddio.
- Mae'r tîm Optometreg yn comisiynu ac yn darparu addysg, mentora a datblygiad proffesiynol ôl-raddedig i optometryddion, gan wella sgiliau optometryddion, gan gynnwys i gefnogi'r gwaith o gynyddu argaeledd gofal llygaid o ansawdd uchel mewn lleoliadau sylfaenol a chymunedol.
- Mae ein tîm Comisiynu Addysg yn comisiynu addysg a hyfforddiant cyn ac ar ôl cofrestru ar gyfer nyrsys, bydwragedd, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gwyddonwyr gofal iechyd, gyda sicrwydd ansawdd wedi'i wreiddio ar draws yr holl raglenni a gomisiynir. Mae'r tîm yn monitro perfformiad darparwyr, profiad dysgwyr ac ansawdd lleoliadau, gan weithio gyda phartneriaid i nodi, ymchwilio a rheoli materion a phryderon cysylltiedig ag ansawdd drwy lwybrau llywodraethu y cytunwyd arnynt.
- Mae ein tîm dysgu seiliedig ar waith yn datblygu addysg seiliedig ar waith a phrentisiaethau i gefnogi amrywiaeth o yrfaoedd, a ni yw partner fframwaith prentisiaeth iechyd Medr.

Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr proffesiynol a Chyrff Dyfarnu i alinio addysg a hyfforddiant â safonau cenedlaethol, gofynion ansawdd a disgwyliadau diogelwch cleifion.

System Rheoli Ansawdd (QMS) ar gyfer Amgylcheddau Addysg a Hyfforddiant


Mae gan y QMS bedwar maes cysylltiedig: Cynllunio Ansawdd, Gwella Ansawdd, Rheoli Ansawdd a Sicrwydd Ansawdd. Mae'r system adborth yn ganolog i'r fframwaith, gan ddarparu sylfaen i holl elfennau eraill y QMS.



Mae QMS AaGIC ar gyfer addysg a hyfforddiant wedi'i hen sefydlu ym maes meddygaeth ôl-raddedig sydd wedi alinio â safonau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), ac mae wedi cael sicrwydd cadarnhaol gan y GMC. Mae'r QMS hon wedi cael ei gwreiddio a'i chryfhau ar gyfer yr holl raglenni addysg a hyfforddiant sy'n alinio ag un set o safonau sy'n seiliedig ar safonau'r GMC. Mae hyn yn darparu dull strwythuredig o gynllunio, dysgu a gwella.

Pwrpas QMS Addysg a Hyfforddiant AaGIC:

"I wella ansawdd yr amgylchedd dysgu a'r profiad hyfforddi yn barhaus, er mwyn sicrhau bod y systemau addysg a hyfforddiant yn bodloni gofynion y dysgwyr, hyfforddwyr a chleifion yng Nghymru yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy."



Fframwaith QMS wedi'i gymryd o Datblygu System Rheoli Ansawdd

Mae gweithredu'r QMS yn helpu i nodi amrywiadau'n gynnar, defnyddio metrigau cyson a ffocysu cymorth lle mae angen gwella.

Mae'r rhaglen Hyfforddiant Sgiliau Gwella Ansawdd (QIST) yn rhoi sgiliau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol wella gwasanaethau, profiad cleifion a chanlyniadau.

Llywodraethu Swyddogaethau Addysg a Hyfforddiant yn AaGIC

Mae strwythur llywodraethu ansawdd addysg a hyfforddiant AaGIC yn cefnogi goruchwyliaeth, uwchgyfeirio a dysgu cyson.

Mae'r Grŵp Goruchwylio Ansawdd yn cael adborth gan yr holl swyddogaethau addysg a hyfforddiant, yn triongli gwybodaeth a gafwyd gan wahanol ddarparwyr a grwpiau proffesiynol ac yn nodi themâu cyffredin. Mae pryderon sylweddol neu barhaus yn cael eu huwchgyfeirio i'r Tîm Gweithredol, ac mae gwybodaeth ac enghreifftiau o arferion da yn cael eu rhannu'n fewnol, a gyda phartneriaid i gefnogi dysgu a gwella.

Mae data ansawdd sy'n benodol i'r proffesiwn yn cael ei gasglu a'i reoli gan dimau unigol. Adroddir ar risgiau a diweddariadau drwy Grwpiau Ansawdd y Cyfarwyddiaethau, gan alluogi triongli o fewn ac ar draws cyfarwyddiaethau.

Mae matricsau risg diwygiedig a gwell wedi cael eu cyflwyno, sy'n ymgorffori gofynion rheoleiddio a strwythurau QMS, ac maent wedi cryfhau prosesau triongli data a gwybodaeth ar draws cyfarwyddiaethau.

Mae'r Bwrdd Lleoliadau Amlbroffesiynol a'r Grŵp Addysg a Dysgu Seiliedig ar y Gweithle a Gomisiynir yn goruchwylio risgiau yn y Gyfarwyddiaeth Nyrsio, Proffesiynau Iechyd ac Ansawdd, gan sicrhau eu bod yn alinio â safonau rheoleiddio a fframweithiau QMS.

Mae risgiau safonedig yn cael eu triongli ar draws Cyfarwyddiaethau i nodi themâu ar lefel darparwr, safle neu raglen y mae angen ymchwilio iddynt, neu eu huwchgyfeirio i Dîm Gweithredol AaGIC drwy'r Grŵp Goruchwylio Ansawdd.

Monitro Ansawdd Addysg a Hyfforddiant

Mae'r Pwyllgor Ansawdd Comisiynu Addysg yn is-bwyllgor o'r Bwrdd ac mae'n goruchwylio rhaglenni addysg a hyfforddiant yn gyffredinol.

Drwy ein QMS, rydym yn gweithio gyda phrifysgolion, darparwyr lleoliadau, sefydliadau'r GIG a rheoleiddwyr i nodi risgiau, monitro ansawdd a chefnogi gwelliannau.

Caiff pryderon eu nodi drwy adborth gan fyfyrwyr a hyfforddeion, adroddiadau rheoleiddiol, adolygiadau, data recriwtio a chadw, canlyniadau Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr, gwerthusiadau lleoliadau ac ymgysylltu â darparwyr.

Ar ddiwedd 2025/26, cafodd 37 o bryderon eu codi a'u huwchgyfeirio drwy ymyriadau wedi'u targedu gyda'r darparwyr addysg, lle'r oedd perfformiad ac ansawdd yn is na thargedau neu ddisgwyliadau DPA ein comisiynwyr. Saith yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

Diwedd 2025/26

37 Pryderon a godwyd yn ystod y flwyddyn

↓7 Llai o gymharu â'r flwyddyn flaenorol

Dan oruchwyliaeth HEIW

Dros	Drosodd	Drosodd
9,000	**80**	**30**
o Ddysgwyr	Rhaglenni	Proffesiynau

Rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr addysg ar gynlluniau gwella rhaglenni a chamau gweithredu wedi'u targedu. Mae AaGIC yn goruchwylio dros 9,000 o ddysgwyr ar dros 80 o raglenni ar draws mwy na 30 o broffesiynau. Mae nodi a rheoli 37 o bryderon yn rhoi sicrwydd bod ansawdd y ddarpariaeth yn uchel, a hefyd bod materion yn cael eu nodi a'u rheoli.

Addysg Feddygol Ôl-raddedig - Rheoli Ansawdd

Ym maes addysg feddygol ôl-raddedig, mae AaGIC yn gyfrifol am reoli ansawdd yr holl amgylcheddau dysgu cymeradwy ac mae'n atebol i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) sy'n gyfrifol am sicrwydd ansawdd. Mae AaGIC yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant a'r GMC i sicrhau bod meddygon preswyl yn hyfforddi mewn amgylcheddau sy'n bodloni safonau Hyrwyddo Rhagoriaeth. Mae ansawdd hyfforddiant yn cael ei fonitro'n barhaus ac mae dull cadarn a chymesur o reoli ansawdd ar waith. Os nad oes modd datrys pryderon hyfforddi'n lleol neu os ydynt yn fynych, bydd AaGIC yn arwain Ymweliad wedi'i Dargedu i hwyluso cynlluniau gwella. Yn 2025/26, cynhaliwyd 37 o ymweliadau wedi'u targedu ledled Cymru.

Pan fydd pryderon yn gwaethygu neu ddim yn cael eu datrys, ac o bosibl yn effeithio ar ansawdd hyfforddiant, diogelwch cleifion, llesiant neu ganlyniadau, gall y GMC (gan weithio gydag AaGIC) roi rhaglen ar fesurau Monitro Uwch.

Monitro Uwch yw'r lefel uchaf o oruchwyliaeth reoleiddiol. Mae AaGIC a'r GMC yn cefnogi sefydliadau i fynd i'r afael â phryderon am yr amgylchedd dysgu drwy ymgysylltu, ymweliadau ansawdd, adolygiadau cynnydd, cynllunio camau gweithredu a monitro.

Ar ddiwedd 2025/26, roedd pedwar maes hyfforddi yng Nghymru yn destun mesurau monitro uwch, i lawr o bump yn gynharach yn y flwyddyn. Mae meysydd sy'n destun mesurau monitro uwch yn cael eu cefnogi gan gynllun goruchwylio a gweithredu AaGIC, ac mae cynnydd y cynlluniau gweithredu hyn yn ganolog i benderfyniadau uwchgyfeirio / isgyfeirio.

Roedd y pedwar maes a oedd dal yn destun mesurau monitro uwch erbyn mis Ebrill 2026 mewn meddygaeth frys, ac yn adlewyrchu ystod o heriau sy'n parhau i fod angen sylw â ffocws.

Sut ydym ni'n gwrando ar lais y dysgwr?



Llais y Dysgwr

Mae Llais y Dysgwr (meddygon preswyl, myfyrwyr a hyfforddeion) yn darparu gwybodaeth bwysig am ansawdd ac yn llywio gwelliannau a phenderfyniadau strategol.



Profiad meddygon preswyl, myfyrwyr a hyfforddeion

Mae profiad meddygon preswyl, myfyrwyr a hyfforddeion yn ganolog i'r QMS ac yn llywio pedair cydran y fframwaith yn uniongyrchol.

Cydrannau'r fframwaith

1 Cynllunio Ansawdd:

Nodi meysydd i'w gwella a'u blaenoriaethu.

2 Rheoli Ansawdd

Monitro amrywiad a pherfformiad ar draws amgylcheddau addysg a hyfforddiant.

3 Sicrwydd Ansawdd

Darparu tystiolaeth o safonau, cydymffurfiaeth a goruchwyliaeth effeithiol.

4 Gwella Ansawdd

Gyrru dysgu, arloesi a newid ar draws y system yn barhaus.

Ar draws meysydd proffesiynol, mae AaGIC yn defnyddio dull haenog o ymgysylltu â dysgwyr. Mae hyn yn cyfuno arolygon cenedlaethol a gwerthusiadau rhaglenni, fforymau strwythuredig i hyfforddeion a myfyrwyr, grwpiau cynrychioliadol, grwpiau ffocws, llwybrau cwynion a phryderon, ac ymgysylltu uniongyrchol drwy ddiwrnodau astudio a phrosesau adolygu'r cwricwlwm. Mae'r mecanweithiau hyn yn darparu cipolwg meintiol ac ansoddol ac yn helpu i sicrhau bod profiad dysgwyr yn cael ei ystyried ochr yn ochr â gwybodaeth ansawdd perfformiad a rheoleiddio ehangach.

Mae'r dulliau a ddefnyddir ar draws addysg Feddygol, Deintyddol, Fferylliaeth, Fforwm Myfyrwyr Iechyd Cymru a Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol yn dangos sut mae adborth dysgwyr yn cael ei gasglu, ei driongli a sut y gweithredir arno.

Mae enghreifftiau'n cynnwys cyfathrebu cryfach â meddygon preswyl, dolenni adborth "Fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni", grwpiau cynrychioliadol, grwpiau ffocws gyda phrifysgolion, a defnyddio adborth dysgwyr ac addysgwyr wrth gomisiynu, sicrhau ansawdd ac adolygu contractau. Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn yn cefnogi didwylledd, diogelwch seicolegol, ymatebolrwydd a gwelliant parhaus ar draws amgylcheddau dysgu.

Er mwyn cefnogi diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw ymhellach, fe wnaethom gyflwyno Pecyn Cymorth Codi Llais heb Ofn yn 2024, ac rydym yn parhau i weithio i'w wreiddio.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn helpu dysgwyr i adnabod pan nad yw rhywbeth yn teimlo'n iawn, neu pan fydd ganddynt bryderon, ac i godi'r rhain yn hyderus drwy lwybrau priodol. Mae hyn yn atgyfnerthu diwylliant sefydliadol lle mae codi llais yn cael ei annog, ei gefnogi, a gweithredir arno.



Edrych yn ôl ar 2025/26

Enghraifft:
Gwaith sy'n canolbwyntio ar ansawdd i Gefnogi Ansawdd Addysg a Hyfforddiant

Enghraifft: Gwaith sy'n canolbwyntio ar ansawdd i Gefnogi Ansawdd Addysg a Hyfforddiant

Mae'r canlynol yn enghreifftiau i ddangos sut mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn cael ei rhoi ar waith ar draws gwahanol swyddogaethau. Mae pob enghraifft yn dangos naill ai sicrwydd cryfach, galluogrwydd gwell, gwell defnydd o dystiolaeth, mwy o fynediad, neu gymorth uniongyrchol i wella gwasanaethau.



Cynhaliodd AaGIC gynhadledd Rhannu Rhagoriaeth Hyfforddiant mewn Addysg Feddygol (STEME) i ddarparu DPP hanfodol i'r garfan hyfforddwyr, yn ogystal â darparu fforwm ar gyfer rhannu arferion gorau a chyfleoedd hyfforddi arloesol a gwell. Mae'r rhaglen hon yn cael adborth rhagorol ac mae gormod wedi tanysgrifio iddi.



Cyflwynodd yr Uned Cymorth Ailddilysu Raglen 3D (Darganfod, Datblygu a Darparu mewn Gofal Iechyd). Cyflwynodd carfan 2025/26 saith ar hugain (27) o brosiectau gwella, gan arddangos arweinyddiaeth glinigol a gweithgarwch gwella ansawdd ar draws GIG Cymru.

Yn ogystal, darparodd yr Uned raglen hyfforddiant diabetes amlbroffesiynol, gan ddod â staff o 11 practis at ei gilydd i rannu prosiectau gwella ansawdd, hyrwyddo dysgu gan gymheiriaid a chefnogi gwelliannau mewn gofal cleifion. Mae'r Rhaglen hon yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gallu a galluogrwydd arweinyddiaeth sy'n berthnasol i hyfforddiant a darpariaeth gofal iechyd.



Gwnaethom gryfhau'r gwaith o gydlynu datblygiad y gweithlu, addysg, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus drwy sefydlu'r Ddeoniaeth Gofal Sylfaenol. Mae hyn wedi gwella'r cydweithio ar draws y gweithlu gofal sylfaenol amlbroffesiwn, gan gefnogi dull mwy cydgysylltiedig o ddysgu a datblygu a lleihau dyblygu ymdrechion.



Gwnaethom barhau i gryfhau sicrwydd annibynnol a chraffu allanol drwy ein rhaglen Cynrychiolwyr Lleyg.

Ar ôl llwyddo i recriwtio 12 Cynrychiolydd Lleyg ychwanegol ddiwedd 2024, cynyddodd y gronfa i 33 aelod, gan ddarparu mwy o gapasiti i gefnogi gweithgareddau rheoli ansawdd, llywodraethu a gwneud penderfyniadau ar draws y sefydliad. Roedd y broses recriwtio hefyd wedi gwella amrywiaeth y garfan, gan ehangu cynrychiolaeth ar draws cefndiroedd oedran ac ethnig a chefnogi ein hymrwymiad i gynhwysiant, cydraddoldeb a chynnwys safbwyntiau amrywiol ar draws ein gwaith.

Yn Diwedd 2024

12 Cynrychiolwyr lleyg ychwanegol wedi'u recriwtio

33 Cyfanswm nifer ar ôl recriwtio

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, tynnwyd sylw at bryderon ynghylch ansawdd gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol sy'n arwain at ganlyniadau andwyol i gleifion. Mewn ymateb i bryderon yng Nghymru (ac adroddiad penodol ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe) cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol asesiad sicrwydd Cymru gyfan o wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Gan ystyried y pryderon hyn, fe wnaethom adolygu ein rhaglenni hyfforddiant ac ansawdd addysgol cysylltiedig ein hunain mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Er bod y dull presennol yn gadarn, mae cyfres o gamau gwella wedi cael eu nodi. Mae hyn yn cynnwys dull gwell o driongli data o ansawdd ar draws y sefydliad, rhannu data'n well rhwng sefydliadau a sefydlu Grŵp Goruchwylio Ansawdd i gryfhau strwythur llywodraethu a chydweithio ar draws Cyfarwyddiaethau.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Yn ystod 2025/26, roedd rhai meysydd her penodol rhwng y galw a'r cyflenwad a oedd yn effeithio ar gapasiti cyflogaeth graddedigion ar gyfer ein rhaglenni addysg a gomisiynir, yn enwedig nyrsio oedolion yn ardal Abertawe, a pharafeddygon. Cafodd hyn ei ddatrys drwy gydweithio â chydweithwyr yn y GIG i ddod o hyd i ddatrysiadau arloesol. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae AaGIC wedi nodi'r angen i gryfhau ein gwaith partneriaeth drwy ddull gweithredu sy'n fwy rhagweithiol ac wedi'i gydlynu'n genedlaethol ar gyfer cyflogaeth a chomisiynu addysg a hyfforddiant, sy'n adlewyrchu safbwyntiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae sefydlu Grŵp Goruchwylio Cyflenwi'r Gweithlu gan AaGIC ym mis Chwefror 2026 yn cefnogi sefydliadau GIG Cymru i wneud darpariaeth lawn ac amserol i raddedigion a rhannu arferion gorau a datrysiadau arloesol. Mae'r grŵp hwn yn dod ag uwch arweinwyr sy'n gwneud penderfyniadau o bob rhan o GIG Cymru at ei gilydd i adolygu data, nodi risgiau'n gynnar, a chymryd camau lliniaru amserol.

Parhau i wreiddio'r ddyletswydd ansawdd yn ein diwylliant sefydliadol

Bwriad y gwaith hwn yw symud y Ddyletswydd Ansawdd o ymwybyddiaeth i arferion gwella bob dydd, gan gefnogi staff i nodi materion ansawdd, defnyddio tystiolaeth, profi gwelliannau a rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws timau.

Yn ystod 2025/26, fe wnaethom ganolbwyntio ar feithrin ymwybyddiaeth, hyder a defnydd ymarferol ar draws timau.

- Fe wnaethom sefydlu a chyflwyno rhaglen o sesiynau ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd ansawdd i 192 (38%) o'n staff. Roedd adnoddau ychwanegol sy'n hyrwyddo ansawdd, gan gynnwys modiwl e-ddysgu'r Ddyletswydd Ansawdd a thudalen Ansawdd ddynodedig ar fewnrwyd staff AaGIC, yn darparu arweiniad, offer ac adnoddau hygyrch i helpu staff i gymhwyso egwyddorion ansawdd yn y gwaith o ddydd i ddydd.

- Cyflwynwyd clinigau ansawdd i Gyfarwyddiaethau, gan gryfhau'r ddealltwriaeth o egwyddorion ansawdd, ac ymgorffori ystyriaethau ansawdd wrth gynllunio, darparu a gwerthuso.

Datblygu ein System Rheoli Ansawdd (QMS)

Nod y gwaith parhaus o ddatblygu'r QMS yw darparu ffordd fwy cyson a systematig o nodi amrywiadau, triongli gwybodaeth, blaenoriaethu camau gweithredu a chefnogi gwelliant. Rydym wedi cryfhau'r dull hwn trwy ymgorffori strwythurau cyffredin, galluogrwydd gwella a llwybrau llywodraethu ar draws swyddogaethau.

- Mae'r QMS wedi'i sefydlu ar draws swyddogaethau addysg a hyfforddi allweddol, ac fe'i hatgyfnerthir trwy weithrediad mwy cyson ar draws addysg Feddygol, Deintyddol, Fferylliaeth, Optometreg, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Iechyd. Yn 2026/27, bydd y dull hwn yn cael ei fireinio ymhellach a'i ymestyn i swyddogaethau eraill AaGIC, gan gynnwys Arweinyddiaeth ac Olyniaeth, Gweithlu'r Dyfodol, Cynllunio'r Gweithlu, Trawsnewid y Gweithlu a Digidol, i gefnogi mwy o gysondeb wrth gynllunio, sicrhau, gwella ac adrodd ar ansawdd.

- Yn 2025/26, cwblhaodd 471 o gyfranogwyr hyfforddiant QIST ar draws modiwlau Hanfodion Gwella a Gwella mewn Ymarfer, gan adael adborth cadarnhaol yn gyson.

- Yn ogystal, cynhaliodd QIST Ddigwyddiad Dysgu Cenedlaethol AaGIC ym mis Chwefror 2026, gan rannu dysgu ac arloesedd ym maes gwella ansawdd o bob rhan o Gymru. Mae'r rhaglen yn parhau i gryfhau galluogrwydd gwella ac arweinyddiaeth ar draws y gweithlu.

- Sefydlwyd y Grŵp Goruchwylio Ansawdd i gefnogi'r QMS trwy driongli data ansawdd ar draws swyddogaethau addysg a hyfforddiant, nodi themâu cyffredin, risgiau a chyfleoedd i wella, a chryfhau goruchwyliaeth ar draws cyfarwyddiaethau. Bydd hyn yn parhau i gael ei fireinio yn 2026/27 wrth i'r QMS gael ei ymgorffori a'i weithredu ymhellach.

- Cymryd rhan yn llif gwaith QMS Partneriaeth Gofal Diogel Gweithrediaeth y GIG, gan adeiladu ar yr egwyddorion a nodwyd yn Developing a Quality Management System, a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Q, The Health Foundation a'r Quality Improvement Clinic, gyda sesiynau datblygu'r Bwrdd wedi'u cynllunio i gryfhau dulliau QMS. Bydd y rhaglen hon, sy'n rhedeg tan 2027, yn dylanwadu ymhellach ar ddiwylliant ansawdd y sefydliad. Cawn ein cynrychioli gan uwch arweinwyr ar draws meysydd ansawdd, cynllunio ac addysg, sy'n alinio â'n rôl a'n swyddogaethau.

- Mae rhaglen waith sy'n datblygu ar y gweill i ail-gynllunio'r cyfarfodydd Addysg a Hyfforddiant Strategol ar y Cyd (JSET) a gynhelir gyda Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd unigol fel cydran fwy strategol ac amlbroffesiynol o QMS AaGIC. Mae'r dull newydd yn mynd y tu hwnt i'r model comisiynu traddodiadol gyda'r nod o ddarparu fframwaith cyson ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer trafodaethau ar lefel Weithredol ar ansawdd addysg, amgylcheddau dysgu, blaenoriaethau'r gweithlu, arloesi, a stiwardiaeth ariannol. Bydd y dull yn parhau i gael ei fireinio trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithgareddau'r gweithgor, gyda'r cylch cyntaf o gyfarfodydd JSET wedi'i drefnu i ddigwydd yn ystod 2026. Bydd y cyfarfodydd yn darparu mecanwaith allweddol ar gyfer adolygu ansawdd addysg a hyfforddiant, nodi risgiau a chyfleoedd strategol, a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwella gyda Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd ledled Cymru.

Mae gwelliant parhaus yn ymestyn y tu hwnt i addysg a hyfforddiant i bob maes yn AaGIC. Rydym wedi nodi rhai enghreifftiau i ddangos sut mae rhaglenni cyfarwyddiaeth a chorfforaethol yn cymhwyso'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal drwy newid mesuradwy, dysgu, meithrin galluogrwydd a gwella ar draws y system (Atodiad 1).

Cryfhau sut rydym yn gwrando ar leisiau dysgwyr ac yn ymateb iddynt

Mae cryfhau llais y dysgwr yn ganolog i ddull gwella ansawdd, ac fe'i ddefnyddir at ddiben sicrwydd, ac i nodi themâu, profi ymatebion a llywio newidiadau i addysg a hyfforddiant.

- Cyflwynwyd rhaglen straeon dysgwyr a myfyrwyr ar gyfer y Bwrdd, gan ddarparu llwyfan strwythuredig ar gyfer rhannu profiadau ac amlygu themâu allweddol ym maes cymorth addysg, hyfforddiant a'r gweithlu. Mae cyfraniadau dros y flwyddyn wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar brofiad bywyd dysgwyr sy'n ymgymryd ag amrywiaeth o raglenni, ac maent yn helpu i lywio gwelliannau mewn addysg a hyfforddiant.

- Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am themâu gan fyfyrwyr, hyfforddeion a dysgwyr drwy gyfuniad o bwyllgorau sefydlog, adroddiadau perfformiad a phapurau sy'n benodol i raglenni. Mae agendâu'r Bwrdd wedi cael eu cryfhau i gynnwys ystyriaeth fwy penodol o leisiau myfyrwyr, hyfforddeion a dysgwyr, gan ymateb i argymhelliad Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2024.

- Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau cryno gan y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd (ECQC), sy'n uwchgyfeirio materion allweddol a nodwyd drwy adborth dysgwyr, gan gynnwys canlyniadau Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr, pryderon ynghylch amgylchedd hyfforddi a risgiau i ansawdd rhaglenni.

- Rhoddodd Adroddiad Blynyddol yr ECQC grynodeb ôl-weithredol o themâu a drafodwyd yn y Pwyllgor, gan gynnwys profiad lleoliadau, boddhad dysgwyr, tueddiadau recriwtio a gadael, a phryderon ansawdd a nodwyd drwy arolygon cenedlaethol a lleol. Gyda'i gilydd, roedd yr adroddiadau hyn yn sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybod am themâu mynych sy'n ymwneud â phrofiad dysgwyr, cynwysoldeb, cynaliadwyedd ac effaith, gan gryfhau gallu AaGIC i gasglu mewnwelediadau amrywiol gan fyfyrwyr drwy ddarparu dull hyblyg a chynhwysol, gan alluogi myfyrwyr i ymgysylltu ar lefelau amrywiol drwy weithgorau dan arweiniad myfyrwyr a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau. Mae dros 300 o fyfyrwyr wedi cofrestru, gan ehangu'r cyrhaeddiad yn sylweddol.

- Fe wnaethom adfer fforwm cenedlaethol diwygiedig i fyfyrwyr sy'n blaenoriaethu cynhwysiant, cynaliadwyedd ac effaith, gan gryfhau gallu AaGIC i gasglu gwybodaeth amrywiol am fyfyrwyr drwy ddarparu dull hyblyg a chynhwysol, gan alluogi myfyrwyr i ymgysylltu ar wahanol lefelau drwy weithgorau dan arweiniad myfyrwyr a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau. Mae dros 300 o fyfyrwyr wedi cofrestru.

Gwerthuso Ansawdd ein Gwaith

Mae gwerthuso yn darparu dolen adborth bwysig ar gyfer gwella ansawdd, gan helpu AaGIC i ddeall a yw ei systemau a'i raglenni'n cael yr effaith a fwriadwyd a lle mae angen cymryd camau pellach.

Rydym yn defnyddio canfyddiadau archwiliadau, arolygon ac adolygiadau i brofi a yw ein trefniadau'n effeithiol, i nodi meysydd i'w gwella ac olrhain y camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb.

Adroddiadau archwilio

Archwilio Cymru

Roedd Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru yn adolygu trefniadau llywodraethu AaGIC a'r defnydd o adnoddau. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod AaGIC yn deall ei amgylchedd gweithredu, ei fod yn canolbwyntio'n gryf ar anghenion y gweithlu yn y tymor canolig a'r tymor hir, a bod ganddo drefniadau llywodraethu, cynllunio ac ariannol cadarn. Gwnaeth yr adroddiad dri argymhelliad ar wybodaeth am brofiad dysgwyr, Sesiynau Datblygu'r Bwrdd a chyfathrebu am bwysau ariannol a chynaliadwyedd y gweithlu. Mewn ymateb, rydym wedicryfhau mesurau llywodraethu, triongli ac uwchgyfeirio adborth dysgwyr, gwella trefniadau datblygu'r Bwrdd, ac yn parhau i weithio ar gyfathrebu â rhanddeiliaid.

Yn ogystal yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd Archwilio Cymru archwiliad Sicrhau Gwerth o Leoedd Addysg a Gomisiynir i asesu sut mae AaGIC yn asesu ac yn sicrhau gwerth am arian pan fydd yn buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant.

Canfu'r archwiliad fod ein dull cynllunio a chontractio yn ychwanegu gwerth i fyfyrwyr a GIG Cymru ond roedd angen iddo gryfhau sut rydym yn asesu ac yn cyfleu effaith a gwerth buddsoddiadau addysg.

Rydym yn gweithredu'r argymhellion drwy gryfhau'r fframwaith gwerth am arian a chynhyrchu adroddiad blynyddol yn gwerthuso pob cylch academaidd.

Rydym wedi ymrwymo i gryfhau ein dull gweithredu i sicrhau bod dulliau gwerthuso yn fwy cadarn a systematig ac yn rhoi mwy o bwyslais ar ddeall a dangos tystiolaeth o effaith ein gwaith.

Archwilio Mewnol

Yn 2025/26, cafodd rhaglen archwilio sy'n seiliedig ar risg ei chyflawni, a'i hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i gefnogi gwelliant. Cadarnhaodd y canfyddiad y gallai'r Bwrdd gael sicrwydd sylweddol bod trefniadau i sicrhau mesurau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn cael eu cynllunio'n briodol a'u rhoi ar waith yn effeithiol.

Cwblhawyd a chyflwynwyd archwiliad mewnol ar y Ddyletswydd Ansawdd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Gorffennaf 2025. Cafodd yr archwiliad sicrwydd sylweddol a chododd un argymhelliad mewn perthynas â 13 phob aelod staff yn mynychu sesiwn ymwybyddiaeth staff ar y ddyletswydd ansawdd. Rydym wedi rhoi'r argymhelliad hwn ar waith yn rhaglen hyfforddi'r Ddyletswydd Ansawdd ac wedi'i wreiddio mewn hyfforddiant a sesiynau ymsefydlu staff ar Arfarnu Perfformiad ac Adolygu Datblygiad (PADR).

Cafodd ein Huned Cymorth Ailddilysu farn Sicrwydd Sylweddol gan yr Archwiliad Mewnol, gan roi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu, sicrwydd ansawdd a rheoli yn gweithredu'n effeithiol, ac nad oedd unrhyw faterion wedi'u nodi at ddiben adrodd.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

Cynhelir cyfarfodydd partneriaeth chwarterol gydag AGIC. Rydym wedi diwygio ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i adlewyrchu cydnabyddiaeth o'r budd cyffredin o rannu gwybodaeth yng nghyfarfodydd Uwchgynhadledd AGIC a chyfarfodydd partneriaeth rheolaidd.



Arolwg Staff GIG Cymru

Rydym yn rheoli Arolwg Staff GIG Cymru ar ran GIG Cymru, a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru a Fforwm Partneriaeth Cymru. Mae'r arolwg blynyddol yn cofnodi profiadau'r gweithlu, yn cefnogi gwelliannau wedi'u targedu ac yn darparu gwybodaeth genedlaethol a lleol.

Yn 2025

34,645
Staff GIG Cymru wedi ymateb i'r Arolwg

Yn cynrychioli
30%
o'r gweithlu

Cynnydd o
21%
o'r ymatebion yn 2024

O'r tu mewn AaGIC

446 Cwblhaodd staff yr arolwg yn llawn

92.9%
Ymateb Cyfradd staff

Mae'r meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol yn cynnwys pwysau ar y gweithlu, ymgysylltu, adborth gan staff a datblygu gyrfa. Mae gan bob cyfarwyddiaeth arweinydd arolwg staff, syn cael ei gefnogi gan weithgor arolwg staff AaGIC i gefnogi meysydd gwella lleol.

Gallwch ddarllen mwy am Arolwg Staff GIG Cymru ar ein gwefan.

Cwynion, Pryderon a Risgiau

Mae cwynion, pryderon a risgiau yn darparu gwybodaeth bwysig am ansawdd. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i gryfhau'r broses o ymdrin â chwynion, nodi gwersi i'w dysgu a gwella sut mae risgiau a phryderon yn cael eu monitro.

Mae ein Polisi Ymdrin â Chwynion yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli cwynion a phryderon, gan gefnogi datrys amserol, monitro effeithiol a dysgu sefydliadol.

Dros y tair blynedd diwethaf

7
Cwynion yn 2023/24

20
Cwynion yn 2024/25

25
Cwynion yn 2025/26

Mae cwynion, pryderon a risgiau yn darparu gwybodaeth bwysig am ansawdd. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i gryfhau'r broses o ymdrin â chwynion, nodi gwersi i'w dysgu a gwella sut mae risgiau a phryderon yn cael eu monitro. Mae ein Polisi Ymdrin â Chwynion yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli cwynion a phryderon, gan gefnogi datrys amserol, monitro effeithiol a dysgu sefydliadol.

Bu cynnydd mewn cwynion dros y 3 blynedd diwethaf, gan godi o 7 cwyn yn 2023/24 i 20 yn 2024/25 a 25 yn 2025/26. Roedd y cynnydd hwn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y broses gwyno ac mae wedi cyfrannu at heriau o ran cyflawni amserlenni ymateb. Rydym wedi cynyddu capasiti ein tîm Llywodraethu Corfforaethol i gefnogi gwelliannau o ran

prydlondeb ymdrin â chwynion.

O'r 25 cwyn a ddaeth i law eleni, ymatebwyd i 14 o fewn amserlenni polisi.

Nodwyd tair prif thema:



Cyfleoedd rôl i raddedigion
gan gynnwys cymdeithion meddygol, cwnselwyr genetig a nyrsio.



Dyraniadau a phrosesau cyllid
gan gynnwys cronfeydd treuliau a theithio.



Codi
Gweithredu'r system ddigidol integredig newydd (Codi) sydd wedi'i dylunio i gefnogi'r gwaith o reoli meddygon preswyl a gweithwyr proffesiynol ôl-raddedig ar draws GIG Cymru.

Rydym yn gweld cwynion fel cyfle i wella drwy ddysgu gwersi a oedd, yn 2025/26, yn cynnwys yr angen am gyfathrebu cliriach, mwy amserol, gwell amlygrwydd i gyfleoedd hyfforddi, cymorth bugeiliol cryfach ac arweiniad cliriach i ddysgwyr. Cryfhawyd prosesau i olrhain camau gweithredu a dysgu o gwynion.

Ystyriwyd adroddiad blynyddol y Polisi Ymdrin â Chwynion gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, gyda chwynion hefyd yn cael eu monitro drwy adroddiadau perfformiad.

Yn dilyn adolygiad gan Lywodraeth Cymru, cafodd y rheoliadau Gweithio i Wella eu disodli gan y broses Gwrando ar Bobl o 1 Ebrill 2026 ymlaen. Byddwn yn diweddaru ein Polisi Ymdrin â Chwynion yn ystod 2026/27.

Codi Llais Heb Ofn

Mae Codi Llais Heb Ofn yn cefnogi diwylliant o ddysgu drwy helpu staff, hyfforddeion a myfyrwyr i godi pryderon yn gynnar, gan alluogi dealltwriaeth o faterion, ymateb iddynt a'u defnyddio i lywio gwelliant ehangach.

Rydym wedi parhau i wreiddio'r dull hwn drwy gyfathrebu, llwybrau digidol, llywodraethu a gweithio mewn partneriaeth.

Mae Fframwaith Codi Llais Heb Ofn yn cefnogi diwylliant lle gall staff, hyfforddeion a myfyrwyr godi pryderon yn hyderus, gan wybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt ac yn gweithredu'n briodol.

Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom barhau i wreiddio Codi Llais Heb Ofn drwy gyfathrebu, ymgysylltu a newid diwylliant, gyda'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn.

Roedd y datblygiadau allweddol yn:

- Parhau i ddarparu ymgyrch gyfathrebu ac ymgysylltu Codi Llais Heb Ofn wedi'i thargedu, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth ymysg staff, hyfforddeion a myfyrwyr. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau i raglenni ymsefydlu, cyrraedd dros 3,000 o fyfyrwyr, a datblygu adnoddau ategol fel fideos a phecynnau cymorth.

- Cyflwyno swyddogaeth ddigidol newydd i gefnogi codi llais, gan gynnwys cyflwyno llwyfan "WorkInConfidence", sy'n galluogi unigolion i fynegi pryderon yn anhysbys.

- Ehangu'r trefniadau ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys lansio llwyfan adrodd anhysbys ar gyfer hyfforddeion a chyfeirio gwell drwy godau QR a llwybrau mynediad digidol.

- Cryfhau gweithio mewn partneriaeth â Sefydliadau Addysg Uwch, gan gynnwys cytuno y bydd Sefydliadau Addysg Uwch yn darparu gwybodaeth lefel uchel reolaidd am bryderon a godir gan fyfyrwyr, yn enwedig mewn perthynas â bwlio, aflonyddu a materion cydraddoldeb.

- Cynnydd tuag at well trefniadau diogelu, gan gynnwys datblygu mynediad at dîm diogelu pwrpasol i gefnogi staff a dysgwyr.

Mae llywodraethu wedi cael ei gryfhau drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen Codi Llais Heb Ofn, goruchwyliaeth gan y Bwrdd a Hyrwyddwr Aelodau Annibynnol. Mae monitro rheolaidd yn helpu i nodi a mynd i'r afael â phryderon, themâu a risgiau.

Cofrestr Risg Gorfforaethol

Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei hadolygu bob chwarter gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, a bob dau fis gan y Bwrdd. Roedd y prif risgiau a gafodd eu rheoli yn ystod 2025/26 yn cynnwys:

- Seiberddiogelwch a Chadernid.
- Sefydliadau Addysg Uwch sy'n cyflawni lefelau comisiynu.
- Cefnogi rôl y Cydymaith Meddygol.
- Darpariaeth Nyrsio Prifysgol Caerdydd - canlyniad yr ymgynghoriad.
- Gweithredu a lansio Codi.
- Swyddi gwag ar gyfer graddedigion.
- Cyllid Cynllun Addysg a Hyfforddiant 2026/27.
- Capasiti a galluogrwydd y tîm Data a Dadansoddeg.
- Gweithredu'r Ddeddf Blaenoriaethu ar gyfer recriwtio meddygol ôl-raddedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mhapurau'r Bwrdd ar wefan AaGIC.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod staff yn gallu asesu, rheoli, uwchgyfeirio ac adrodd ar risg. Parhaodd hyfforddiant rheoli risg i'n rheolwyr drwy gydol 2025/26.

Cydraddoldeb, Cynhwysiant a'r Gymraeg

Mae cydraddoldeb, cynhwysiant a'r Gymraeg yn greiddiol i wella ansawdd oherwydd eu bod yn helpu i nodi lle gall mynediad, profiad neu ganlyniadau amrywio, a lle mae angen camau gweithredu wedi'u targedu i wneud gwasanaethau ac amgylcheddau dysgu yn decach ac yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.

Rydym wedi defnyddio ein gwaith cydraddoldeb, cynhwysiant a'r Gymraeg i gryfhau cynrychiolaeth, gwella mynediad a chefnogi gwasanaethau addysg a gweithlu mwy ymatebol.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn sail i'n holl waith. Mae AaGIC yn parhau i gyflawni ei gyfrifoldebau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu.

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn cynnwys y Gymraeg, gan gydnabod bod mynediad at wasanaethau Cymraeg yn gallu gwella profiad, llesiant a chanlyniadau pobl.

Cydraddoldeb ac cynhwysiant

17%
O recriwtiaid newydd o leiafrif ethnig

4
O'r garfan bresennol o dan 44 oed

Roedd penodi Cynrychiolwyr Lleyg ychwanegol, y cyfeiriwyd atynt yn gynharach mewn perthynas â sicrwydd annibynnol a chraffu allanol, hefyd yn cefnogi ymrwymiad AaGIC i gydraddoldeb a chynhwysiant drwy ehangu cynrychiolaeth yn y gronfa o Gynrychiolwyr Lleyg. O'r rheini a ddarparodd ddata monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), dywedodd 17% o recriwtiaid newydd eu bod o gefndir lleiafrifoedd ethnig, o'i gymharu â 0% o'r garfan bresennol, a dywedodd pedwar o recriwtiaid eu bod o dan 44 oed. Roedd hyn yn dilyn gwaith wedi'i dargedu i wella amrywiaeth, gan gynnwys adolygu'r broses ymgeisio a chynyddu tâl rolau.

Mae AaGIC yn parhau i weithredu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'i Gynllun Iaith Gymraeg cymeradwy. Mae gwaith yn mynd rhagddo i newid i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o 1 Hydref 2026 ymlaen.

Cynyddodd y galw am wasanaethau Cymraeg yn ystod y flwyddyn, gyda thros 5.3 miliwn o eiriau'n cael eu cyfieithu, a darpariaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei darparu mewn 98 o ddigwyddiadau, mwy na dwbl y flwyddyn flaenorol.

Bu cynnydd hefyd o ran deall sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu. Roedd y gyfradd cwblhau proffil sgiliau iaith wedi cynyddu i 89% o'r staff craidd, gyda 12% yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Galw am Wasanaethau'r Iaith Gymraeg

5.3 Miliwn
Geiriau wedi'u cyfieithu o'r Saesneg gan HEIW

98
Digwyddiadau a fynychwyd ar gyfer cymorth Cymraeg

Sgiliau yn y Gymraeg o fewn HEIW Aagic

89%
Staff craidd gyda sgiliau iaith Gymraeg

12%
o'r staff yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl

Mae Mwy Na Geiriau yn parhau i fod yn ffocws allweddol. Dyma rai o'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:

- Sefydlu rhwydwaith cenedlaethol Mwy Na Geiriau (77 cynrychiolydd), ochr yn ochr â digwyddiadau dysgu wedi'u targedu a chynhadledd genedlaethol a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, gyda dros 100 o gynrychiolwyr yn bresennol, i rannu arferion da a meithrin galluogrwydd.

- Lansiwyd llyfr ymadroddion Gofalu Trwy'r Gymraeg i gefnogi'r gweithlu i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg syml ac ymarferol mewn lleoliadau clinigol ac addysgol bob dydd. Ei nod yw meithrin hyder a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ar draws rhyngweithiadau cleifion, gan gyfrannu at wella ansawdd a phrofiad drwy ddewis iaith.

- Mabwysiadu adnodd cynllunio gweithlu Cymraeg yn ehangach, sydd bellach wedi'i wreiddio mewn polisi iechyd cenedlaethol ac sy'n dylanwadu ar strategaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant (Ebrill 2025), gan gefnogi newid tuag at ddarpariaeth wedi'i chynllunio ar sail anghenion iaith.

- Mae Fforwm Myfyrwyr Iechyd Cymru, y cyfeiriwyd ato'n gynharach mewn perthynas â chryfhau llais y dysgwr, hefyd yn cefnogi'r Gymraeg a chynhwysiant drwy godi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y dyfodol a gwreiddio'r Gymraeg fel elfen graidd o addysg a hyfforddiant.

Nod ein dull rhagweithiol o ddarparu'r Gymraeg yw helpu gwasanaethau i ddod yn decach, i ganolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac i ymateb yn well i gymunedau Cymraeg eu hiaith.



Y Ddyletswydd Ansawdd yn ein Cyfarwyddiaethau a'n Rhaglenni Gwaith

Mae gennym lawer o enghreifftiau o sut mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn cael ei gwreiddio mewn ymarfer. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut mae hyn yn cyfrannu at wella ansawdd ar draws GIG Cymru ac maent wedi'u trefnu o amgylch pedair thema eang: meithrin galluogrwydd i wella ansawdd, defnyddio gwybodaeth i dargedu camau gweithredu, cryfhau cyflenwad a mynediad y gweithlu, a chefnogi gofal mwy diogel sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.

Meithrin Galluogrwydd i Wella Ansawdd

Mae diwylliant cynaliadwy o wella ansawdd yn dibynnu ar arweinwyr, addysgwyr a staff yn meddu ar y sgiliau, yr hyder a'r gefnogaeth sydd eu hangen i nodi cyfleoedd i wella, profi dulliau newydd a gwreiddio dysgu mewn ymarfer.

Yn ystod 2025/26, parhaodd AaGIC i gryfhau'r gallu i wella drwy ddatblygu arweinyddiaeth, ymchwil, hyfforddiant gwella ansawdd a dysgu sy'n seiliedig ar efelychu. Mae enghreifftiau'n cynnwys Rhaglen Darpar Brif Weithredwyr, Cronfa Dalent Darpar Gyfarwyddwyr Gweithredol a Rhaglen Rheoli Graddedigion GIG Cymru, sy'n helpu i feithrin capasiti arweinyddiaeth yn y dyfodol a chynllunio olyniaeth ar draws GIG Cymru.

Cafodd y gallu i wella ei gefnogi ymhellach drwy raglen QIST a'r Digwyddiad Dysgu Cenedlaethol, sy'n parhau i ddatblygu sgiliau gwella ansawdd ar draws proffesiynau a sefydliadau. Cryfhaodd rhaglen PRIORITY II alluogrwydd ymchwil, tra bod yr Academi Efelychu a Sgiliau Clinigol yn parhau i weithio tuag at ddull cenedlaethol o addysg efelychu a datblygu cyfadrannau.

Ochr yn ochr â'r mentrau hyn, mae'r Ganolfan Oruchwylio Genedlaethol ac adnoddau dysgu deallusrwydd artiffisial (AI) AaGIC wedi ehangu mynediad at adnoddau ymarferol a chyfleoedd dysgu sy'n cefnogi ymarfer myfyriol, gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a gwelliant parhaus.

Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn cryfhau'r arweinyddiaeth, y gwelliant, yr ymchwil a'r galluogrwydd dysgu sydd eu hangen i gynnal y gwaith o wella ansawdd ar draws GIG Cymru.

Defnyddio Gwybodaeth i Gynllunio, Targedu a Gwella

Mae gwelliant yn gofyn am wybodaeth amserol a dibynadwy i ddeall amrywiad, nodi risgiau, rhagweld anghenion yn y dyfodol a thargedu ymyriadau lle byddant yn cael yr effaith fwyaf.

Fe wnaethom gryfhau'r defnydd o wybodaeth am y gweithlu, modelu a mewnwelediad dadansoddol drwy nifer o raglenni cenedlaethol.

Roedd Canolfan Cynllunio'r Gweithlu yn gwella mynediad at offer, hyfforddiant ac adnoddau cynllunio'r gweithlu, ac roedd y Porth Data a Dadansoddeg yn gwella mynediad at wybodaeth ac adroddiadau cyson am y gweithlu.

Mae gwaith wedi'i dargedu i wella ansawdd data'r gweithlu gwyddor gofal iechyd a datblygu'r Map Gweithlu Fferylliaeth cyntaf ar gyfer Cymru gyfan wedi cryfhau dealltwriaeth o gyflenwad, dosbarthiad ac anghenion y gweithlu yn y dyfodol. Yn yr un modd, mae'r Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol wedi cefnogi sefydlogrwydd, cyfraddau cadw a chapasiti lleoliadau'r gweithlu gan ddefnyddio modelu a gwybodaeth am y gweithlu.

Mae'r rhaglenni hyn yn gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan helpu GIG Cymru i nodi risgiau'r gweithlu'n gynharach, dyrannu adnoddau'n fwy effeithiol ac alinio datblygiad y gweithlu ag anghenion y boblogaeth.

Cryfhau Cyflenwad, Mynediad a Chadernid y Gweithlu

Un cyfraniad allweddol y mae AaGIC yn ei wneud at ansawdd yw sicrhau bod gwasanaethau'n gallu cael gafael arweithlu sydd â'r sgiliau, y capasiti a'r hyblygrwydd sydd eu hangen i ateb y galw nawr ac yn y dyfodol.

Yn ystod 2025/26, roedd hyn yn cynnwys parhau i ehangu cyfleoedd dysgu seiliedig ar ymarfer, yn enwedig mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol, gan helpu i ehangu cyfleoedd lleoliadau a chefnogi cyflenwad y gweithlu yn y dyfodol. Cafodd cyflenwad y gweithlu ei gryfhau hefyd drwy Gynllun y Gweithlu Deintyddol a mentrau sy'n cefnogi meddygon a gyflogir yn lleol, sy'n canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau yn y gweithlu a gwella mynediad at gyfleoedd datblygu.

Mae cadernid gwasanaethau wedi cael ei gefnogi ymhellach drwy raglenni fel ehangu rhagnodi annibynnol optometreg, Rhaglen y Gweithlu Amdriniaethol ac Academi Endosgopi Cymru. Mae'r mentrau hyn yn cynyddu gallu'r gweithlu mewn meysydd blaenoriaeth allweddol ar yr un pryd â helpu sefydliadau i ymateb i bwysau ar wasanaethau, gwella cynhyrchiant a gwella mynediad cleifion.

Roedd sefydlu Grŵp Goruchwylio Cyflenwi'r Gweithlu yn cryfhau gallu'r system i nodi risgiau cyflenwad y gweithlu yn gynnar, er mwyn cefnogi camau gweithredu cydgysylltiedig ar draws GIG Cymru.

Gyda'i gilydd, mae'r gwaith hwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu mwy cynaliadwy, gwella mynediad at gyfleoedd addysg a datblygu, ac mae'n cryfhau cadernid gwasanaethau ar draws GIG Cymru.

Cefnogi Gofal Mwy Diogel sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Yn y pen draw, bwriad gweithgarwch addysg, hyfforddiant a datblygu'r gweithlu AaGIC yw cefnogi gwasanaethau mwy diogel, mwy effeithiol sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn i bobl Cymru.

Roedd enghreifftiau yn ystod 2025/26 yn cynnwys gweithredu'r Fframwaith Cymhwysedd Craidd Amenedigol, sy'n helpu i leihau amrywiadau mewn

gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol drwy safonau ac asesiadau cymhwysedd cyson. Yn yr un modd, mae gwaith i ddatblygu Fframwaith Cymhwysedd Gofal Lliniarol a Diwedd Oes Cymru Gyfan yn cefnogi dull cyson o ymdrin â gofal tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws lleoliadau.

Mae Hyfforddiant Golwg Gwan wedi cryfhau galluogrwydd arbenigol a chydweithio ar draws partneriaid proffesiynol a thrydydd sector, ac mae'r Hyb Optimeiddio Llif Cleifion wedi cefnogi dysgu ar y cyd a dulliau gwella ymarferol sydd â'r nod o wella llif cleifion a lleihau oedi. Mae gwaith arweinyddiaeth dosturiol AaGIC yn parhau i gefnogi'r amodau diwylliannol sydd eu hangen ar gyfer gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Gyda'i gilydd, mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut mae ein gwaith ym maes addysg, datblygu'r gweithlu, arweinyddiaeth a gweithgarwch gwella gwasanaethau yn cyfrannu'n uniongyrchol at ofal mwy diogel, gwell profiad a gwell canlyniadau i gleifion a chymunedau.



Edrych ymlaen at 2026/27

Edrych ymlaen at 2026/27

Yn 2026/27, bydd AaGIC yn parhau i wreiddio'r Ddyletswydd Ansawdd ac yn cryfhau'r systemau, y prosesau a'r diwylliant sy'n ei chefnogi. Byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

1 Ymgorffori'r System Rheoli Ansawdd ar draws AaGIC

Ehangu'r gweithredu y tu hwnt i addysg a hyfforddiant i swyddogaethau corfforaethol a gweithredol, wedi'i gefnogi gan lywodraethu cyson, prosesau sicrwydd ansawdd safonol, a hyfforddiant ar draws y sefydliad.

2 Cryfhau data, adrodd a gwybodaeth

Datblygu Cronfa Ddata Rheoli Ansawdd unedig a dangosfyrddau i alluogi adrodd "parhaol", delweddu data gwell, ac aliniad â phrosesau adrodd y sefydliad.

3 Gwella llais y dysgwr ac ymgysylltiad

Gweithredu Fframwaith Ymgysylltu â Dysgwyr, cryfhau'r gwaith o driongli adborth, ac ehangu'r defnydd o fewnwelediadau dysgwyr ar draws penderfyniadau'r Bwrdd a'r gyfarwyddiaeth.

4 Alinio Dull Dyletswydd Ansawdd AaGIC â blaenoriaethau ansawdd cenedlaethol

Alinio amcanion a mesurau ansawdd AaGIC â'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Diogelwch Cleifion a fframweithiau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg, fel y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd, gan barhau i gyfrannu at Bartneriaeth Perfformiad a Gwella Gofal Diogel GIG Cymru i lywio a chryfhau ein rhaglen waith ansawdd leol.

5 Alinio strategaethau addysg a DPP gyda'r System Rheoli Ansawdd (QMS)

Sicrhau bod Strategaeth Addysg a Strategaeth Datblygiad Proffesiynol Parhaus AaGIC yn alinio â'r QMS ac yn cefnogi safonau ansawdd cyson.

6 Datblygu ffyrdd mwy effeithlon o weithio

Cyflawni'r rhaglen Ffyrdd o Weithio yn AaGIC i symleiddio llywodraethu, lleihau dyblygu, a chynyddu gwerth systemau digidol a modelau gweithio hybrid.

7 Cryfhau galluogrwydd a diwylliant ansawdd

Ymgorffori'r Ddyletswydd Ansawdd yn y broses ymsefydlu ar gyfer staff, parhau â rhaglenni ymwybyddiaeth a datblygu, a chefnogi'r gwaith o gymhwyso Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yn gyson.

Casgliad

Mae ansawdd wrth galon popeth a wnawn. Mae'n sail i'n cyfrifoldeb i ddysgwyr, addysgwyr, partneriaid a phobl Cymru, gan sicrhau bod gan y gweithlu gofal iechyd yr wybodaeth, y sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen i ddarparu gofal diogel, effeithiol a thosturiol. Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar welliant parhaus, llywodraethu cadarn, a diwylliant sy'n gwerthfawrogi dysgu, cydweithio ac arloesi

Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd i'n Bwrdd, ein partneriaid a'r cyhoedd bod gennym systemau cadarn ar waith i fonitro, rheoli a gwella ansawdd ar draws pob agwedd ar ein gwaith.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i wrando ar ddysgwyr, addysgwyr, cleifion, partneriaid a'n staff ein hunain, gan ddefnyddio tystiolaeth a gwybodaeth i lywio gwelliannau yn y dyfodol a sicrhau ein bod yn parhau i fodloni'r disgwyliadau sydd arnom fel sefydliad cenedlaethol.

Yn 2026/27, byddwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma drwy wreiddio'r QMS yn ehangach, cryfhau data a gwybodaeth, alinio â blaenoriaethau ansawdd cenedlaethol, a gwella sut rydym yn casglu ac yn ymateb i adborth gan ddysgwyr a rhanddeiliaid. Mae gweithio mewn partneriaeth yn dal yn hanfodol i'n llwyddiant a gyda'n gilydd, rydym yn adeiladu gweithlu sy'n gydnerth, hyblyg ac sy'n gallu ymateb i heriau'r dyfodol, ar yr un pryd â chynnal y safonau gofal uchaf.

Gobeithio bod y trosolwg hwn o'r cynnydd a wnaed drwy gydol 2025/26 o ran gwreiddio'r Ddyletswydd Ansawdd wedi bod yn ddefnyddiol i chi.

GIG CYMRU NHS WALES

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) | Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Tŷ Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw, CF15 7QQ

03300 585 005

heiw@wales.nhs.uk

aagic.gig.cymru | heiw.nhs.wales